


# DATA CYDRADDOLDEB MYFYRWYR

Cyfnod Adrodd
1 Awst 2021 - 31 Gorffennaf 2022

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# RHAGARWEINIAD



**Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar statws rhywedd, ethnigrwydd  anabledd ac oedran holl fyfyrwyr Prifysgol Bangor a gofrestrwyd ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/2021. Ei nod yw cynorthwyo'r rhai sy'n gweithio i gynnal cymuned gynhwysol yn y brifysgol, ennyn gwell dealltwriaeth o'r prif heriau sy'n wynebu'r myfyrwyr o ran cydraddoldeb a chyfeirio ymdrechion i'w goresgyn at y dyfodol.**

**Mae'r adroddiad yn cymharu ffigurau Prifysgol Bangor â'r ystadegau cenedlaethol cyfatebol (os ydynt ar gael), er mwyn ystyried sut mae amrywiaeth a chynwysoldeb myfyrwyr y brifysgol yn meincnodi yn erbyn sector ehangach y Deyrnas Unedig, gan gyfeirio hefyd at dueddiadau tymor hwy er mwyn darparu rhagor o gyd-destun i'r adroddiad, ac i nodi unrhyw dueddiadau newydd.**


**Paratowyd gan Andrea Jones,**
**Strategaeth, Projectau a Chynllunio, Chwefror 2023**




# RHYWEDD

Dychwelir data ynglŷn â rhywedd myfyrwyr i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a'r dewisiadau posib yw 'Gwryw', 'Benyw' ac 'Arall'. Oherwydd bod y niferoedd yn fach, ac yn unol â pholisi HESA, mae'r myfyrwyr a nododd mai 'Arall' yw eu rhywedd wedi eu hepgor o ddadansoddiadau rhywedd yr adroddiad hwn. Sylwer, fodd bynnag, y bydd gwahanol hunaniaethau rhywedd yn cael eu cynnwys yn y prosesau casglu data o 2022/23 a'r gobaith yw y bydd hyn yn ein galluogi i adrodd ar ddosbarthiadau rhywedd anneuaidd yn y dyfodol.

Merched yw mwyafrif y myfyrwyr sy'n astudio ym Mangor o hyd gyda 60% o'r holl fyfyrwyr yn nodi eu bod yn ferched a 40% yn nodi eu bod yn wrywod. Mae hyn yn uwch na chyfran y myfyrwyr sy'n ferched ar draws sector y Deyrnas Unedig (tua 57% yn gyffredinol). Mae'n debygol bod hyn oherwydd bod gan Brifysgol Bangor nifer uchel o fyfyrwyr ar gyrsiau addysg, iechyd, seicoleg a gwyddorau cymdeithas, ac mai merched sydd yn y mwyafrif ar gyrsiau yn y meysydd pwnc hyn yn draddodiadol.



# Myfyrwyr yn ôl rhywedd a lefel astudio

Mae'r dosbarthiad rhywedd ar draws mwyafrif y lefelau astudio ym Mangor yn cyd-fynd i raddau helaeth â chyfrannau cyffredinol y brifysgol yn 2021/22. Dim ond ar lefel ôl-radd ymchwil y mae hyn yn amrywio, gyda chyfran is o ferched na chyfartaledd y brifysgol. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau ar draws sector y Deyrnas Unedig yn gulach na'r hyn a welir ym Mangor ym mwyafrif y lefelau astudio, ond mae'r duedd o gyfrannau uwch o ferched yn parhau. Mae'r bwlch rhwng y rhywiau i fyfyrwyr ymchwil ôl-radd gryn dipyn yn llai ar y lefel genedlaethol, gyda 51% yn ferched. Mae'r tueddiadau dros bum mlynedd ym Mangor a'r Deyrnas Unedig wedi aros yn gymharol sefydlog.

| Lefel astudio | Rhywedd | Bangor | Sector y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Pob Myfyriwr | Merched | 60% | 57% |
| | Dynion | 40% | 43% |
| Israddedigion | Merched | 61% | 57% |
| | Dynion | 39% | 43% |
| Ôl-raddedigion hyfforddedig | Merched | 60% | 58% |
| | Dynion | 40% | 42% |
| Ôl-raddedigion ymchwil | Merched | 57% | 51% |
| | Dynion | 43% | 49% |

# Myfyrwyr yn ôl Rhywedd a Dull Astudio

Myfyrwyr benywaidd oedd 70% o boblogaeth myfyrwyr rhan-amser Bangor yn 2021/22, ac mae hyn yn sylweddol uwch na'r gyfran gyffredinol o fyfyrwyr benywaidd, a hefyd yn sylweddol uwch na'r ffigur cenedlaethol o 62%. Mae'r patrymau cyffredinol hyn wedi aros yn gymharol sefydlog dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2021/22.

| Dull Astudio | Rhywedd | Bangor | Sector y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Pob Myfyriwr | Merched | 60% | 57% |
| | Dynion | 40% | 43% |
| Llawn-amser | Merched | 58% | 56% |
| | Dynion | 42% | 44% |
| Rhan-amser | Merched | 70% | 62% |
| | Dynion | 30% | 38% |

# Myfyrwyr yn ôl rhywedd ac anabledd

Mae ffigurau diweddar ar gyfer 2021/22 ym Mangor yn dangos bod 23% o'r holl fyfyrwyr benywaidd wedi datgelu anabledd, sy'n uwch na'r nifer o fyfyrwyr gwrywaidd. Mae'r cyfrannau o fyfyrwyr gwrywaidd a benywaidd wedi cynyddu dros y pum mlynedd hyd at 2021/22, 3-4%.

Mae ystadegau cenedlaethol ar gyfran y myfyrwyr benywaidd ag anabledd yn sylweddol is, sef 18%, ond mae'n parhau i fod yn uwch na'r ffigur cyfatebol i ddynion. Mae myfyrwyr benywaidd ag anabledd wedi cynyddu 4% ar draws y Deyrnas Unedig, ers 2017/18, heb fawr o newid yn y ffigurau gwrywaidd cyfatebol.

| Rhywedd | Statws anabledd | Bangor | Sector y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Merched | Anabl | 23% | 18% |
| | Dim anabledd | 77% | 82% |
| Dynion | Anabl | 19% | 13% |
| | Dim anabledd | 81% | 87% |

# Pob myfyriwr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn ôl rhywedd ac ethnigrwydd

Mae HESA yn canolbwyntio ar ddata ethnigrwydd i fyfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn unig oherwydd nad oes rhaid casglu data ethnigrwydd am fyfyrwyr eraill, ac felly mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar fyfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn unig.

Yn 2021/22, nododd 8% o fyfyrwyr benywaidd sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig eu bod yn t categori Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, o gymharu â 10% o fyfyrwyr gwrywaidd. Mae'r ffigurau hyn wedi cynyddu 1-2% dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2021/22.

Ar draws sector y Deyrnas Unedig, nododd 25% o fyfyrwyr benywaidd sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig eu bod yn y categori Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n llawer uwch na ffigur Bangor, o gymharu â 28% o fyfyrwyr gwrywaidd. Mae'r ffigurau hyn wedi cynyddu mwy nag ym Mangor, rhwng 2-4% ers 2017/18.

| Rhywedd | Grŵp Ethnig | Bangor | Sector y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Merched | Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 8% | 25% |
| | Gwyn | 92% | 75% |
| Dynion | Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 10% | 28% |
| | Gwyn | 90% | 72% |

# Pob myfyriwr yn ôl rhywedd a maes pwnc

Mae data 2021/22 yn dangos amrywiaeth rhwng y rhywiau ar lefel ysgol, sy'n cyd-fynd â thueddiadau cenedlaethol. Gwrywod yw mwyafrif y myfyrwyr yn y meysydd pwnc traddodiadol lle mae dynion yn y mwyafrif megis Cyfrifiadureg (80%), ac Ysgol Busnes Bangor (61%). Benywod yw mwyafrif y myfyrwyr mewn llawer o ysgolion, gyda chyfrannau arbennig o uchel yn yr Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd (83%), Addysg (75%), Gwyddorau Dynol ac Ymddygiadol (66%), ac Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau (62%).

Mae'r dosbarthiad rhywedd fesul ysgol yn dangos mai dim ond dwy o'r 9 ysgol ym Mangor sy'n dangos cydbwysedd rhwng y rhywiau sydd o fewn 5% i ffigurau cyffredinol y brifysgol, sef 60% yn fenywaidd: Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas (58% benywaidd), ac Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau (62% benywaidd).

Mae patrymau amrywiol yn amlwg ar draws yr ysgolion sy'n weddill, ac mae gan ddwy ysgol anghydbwysedd rhywedd penodol, gyda llawer mwy o fyfyrwyr benywaidd (sylweddol uwch na'r 60% cyffredinol): yr Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd (83%) a'r Ysgol Gwyddorau Addysgol (75%). Mae tueddiadau'r sector ar gyfer y pynciau hyn hefyd yn dangos cyfran sylweddol uwch o fyfyrwyr benywaidd, er bod y cyfrannau ar gyfer yr Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd yn sylweddol uwch na ffigur y sector.

Mae gan ddwy ysgol anghydbwysedd rhywedd penodol gyda llawer mwy o fyfyrwyr gwrywaidd (sylweddol uwch na'r 40% cyffredinol): yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig (80%) ac Ysgol Busnes Bangor (61%). Mae tueddiadau'r sector ar gyfer y pynciau hyn hefyd yn dangos cyfran sylweddol uwch o fyfyrwyr gwrywaidd, er bod y cyfrannau ar gyfer Ysgol Busnes Bangor yn sylweddol uwch na ffigur y sector.

| Ysgol | % Merched |
|---|---|
| Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig | 20% |
| Ysgol Busnes Bangor | 39% |
| Gwyddorau Naturiol | 50% |
| Gwyddorau'r Eigion | 52% |
| Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas | 58% |
| Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau | 62% |
| Gwyddorau Dynol ac Ymddygiadol | 66% |
| Addysg | 75% |
| Gwyddorau Meddygol ac Iechyd | 83% |

Mae’r ysgolion hynny sy'n dysgu pynciau SET (gwyddoniaeth, peirianneg a thechnoleg) ym Mangor yn tueddu i weld anghydbwysedd rhwng y rhywiau o blaid myfyrwyr gwrywaidd a’r Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig sydd â'r ganran uchaf o fyfyrwyr gwrywaidd, sef 80%. Mae’r ysgolion hynny sy'n dysgu pynciau nad ydynt yn bynciau SET, megis yr Ysgol Gwyddorau Addysgol, yn denu mwy o fyfyrwyr benywaidd ac mae hynny’n unol â’r tueddiadau yn y Deyrnas Unedig.

Yr ysgol sydd â'r anghydbwysedd uchaf rhwng y rhywiau o blaid myfyrwyr benywaidd yw’r Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd, sydd ag 83% o fyfyrwyr benywaidd. Mae'r ysgol honno’n cynnig cyrsiau nyrsio a bydwreigiaeth. Caiff y swyddi hynny eu cysylltu'n draddodiadol â merched. Dim ond 10% o holl nyrsys cofrestredig y Deyrnas Unedig yn 2017 oedd yn wrywod (Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, 2017) ac mae'r Coleg Nyrsio Brenhinol o'r farn bod nyrsio yn un o'r swyddi sydd wedi eu rhannu fwyaf ar sail rhyw yn y Deyrnas Unedig (Coleg Nyrsio Brenhinol, 2018).

Maes arall sydd ag anghydbwysedd amlwg iawn rhwng y rhywiau yw'r Ysgol Gwyddorau Addysgol, ac mae 75%, 3 o bob 4 myfyriwr, yn nodi eu bod yn ferched. Mae hyn yn unol â thueddiadau cyffredinol yn y sector addysg. Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn dweud bod gan Gymru deirgwaith cymaint o athrawon benywaidd ag sydd ganddi o athrawon gwrywaidd.

## Myfyrwyr yn ôl rhywedd a chanlyniad gradd

Ceir gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn y canlyniadau gradd.  Llwyddodd cyfran sylweddol uwch o fyfyrwyr benywaidd ym Mangor i ennill gradd dosbarth cyntaf (37%) yn 2021/22, o gymharu â myfyrwyr gwrywaidd (31%), a hefyd o gymharu â ffigurau cenedlaethol (25%).  Fodd bynnag, mae nifer graddau dosbarth cyntaf merched wedi gostwng ers 2020/21 (-6%), ond gyda chynnydd cyffredinol o 4% dros gyfnod o bum mlynedd, yn unol â ffigurau’r Deyrnas Unedig.

Mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn llai arwyddocaol wrth ystyried graddau 2:1, gyda 41% o fyfyrwyr benywaidd ym Mangor yn cael y canlyniad hwn, ychydig yn is na'r ffigur gwrywaidd, sef 43%.  Fodd bynnag, mae ffigur y Deyrnas Unedig yn sylweddol uwch, gyda chyfrannau cyfartal rhwng myfyrwyr benywaidd a gwrywaidd.

Graddiodd 18% o ferched ym Mangor gyda gradd 2:2 yn 2021/22, sy’n is na’r ffigur cyfatebol gwrywaidd, a hefyd yn is na ffigur y Deyrnas Unedig.

| **Rhywedd** | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dosbarth Cyntaf** | | **2:1** | | **2:2** | | **3ydd** | |
| Merched | **37%** | 25% | **41%** | 47% | **18%** | 22% | **3%** | 5% |
| Dynion | **31%** | 36% | **43%** | 47% | **23%** | 14% | **3%** | 3% |

O ran 'graddau da', graddiodd 78% o fyfyrwyr benywaidd gyda gradd dosbarth 1[ad] neu 2:1, o gymharu â 74% o fyfyrwyr gwrywaidd.  Mae hyn yn cynrychioli bwlch cyrhaeddiad cadarnhaol o 4%, er bod y bwlch hwn wedi lleihau 3% ers 2017/18.  Mae ystadegau’r Deyrnas Unedig gyfan yn dangos tueddiadau tebyg, gyda chyrhaeddiad myfyrwyr benywaidd 5% yn uwch na myfyrwyr gwrywaidd yn 2021/22.

| **Rhywedd** | **% o raddau da** | |
|---|---|---|
| | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** |
| Merched | 78% | 81% |
| Dynion | 74% | 76% |




# ANABLEDD


Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r term 'myfyrwyr anabl' i gyfeirio at fyfyrwyr y gwyddys bod ganddynt anabledd, a bennir gan eu hunanasesiad eu hunain. Defnyddir y term 'myfyriwr nad yw'n anabl' i gyfeirio at rai nad ydynt wedi datgelu anabledd neu nad yw'r sefydliad yn gwybod beth yw statws eu hanabledd.

Mae nifer y myfyrwyr sydd wedi datgelu anabledd yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf, (+3 yn 2017/18). Mae'r tueddiadau ym Mangor yn cyd-fynd â'r normau hyn yn y sector (+4% ers 2017/18).

Mae tueddiadau'r Deyrnas Unedig yn dangos bod cyfraddau anabledd a ddatgelir yn gyson uwch ymhlith myfyrwyr israddedig o gymharu ag ôl-raddedigion, myfyrwyr benywaidd o gymharu â myfyrwyr gwrywaidd, myfyrwyr gwyn o gymharu â myfyrwyr o grwpiau ethnig eraill, a myfyrwyr y Deyrnas Unedig o gymharu â myfyrwyr rhyngwladol (cofnod myfyrwyr HESA 2017/18 i 2021/22) . Mae'r patrymau hyn hefyd yn amlwg ym Mangor dros yr un cyfnod adrodd.

Cofnodwyd bod gan 21% o holl fyfyrwyr Bangor anabledd yn 2021/22, sy'n sylweddol uwch na ffigur y Deyrnas Unedig, sef 16%. Ceir rhai amrywiadau yn y data ym Mangor, gyda ffigyrau anabledd yn cyrraedd uchafbwynt o 24% yn 2019/20; yn gyffredinol bu cynnydd (+4%) dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2021/22. Mae'r tueddiadau dros bum mlynedd ar gyfer sector y Deyrnas Unedig wedi bod yn fwy sefydlog dros y cyfnod hwn, ac wedi cynyddu 3% yn gyffredinol.



# Pob myfyriwr yn ôl lefel astudio ac anabledd

Cofnodwyd bod nifer sylweddol fwy o fyfyrwyr israddedig (23%) yn datgan eu bod yn anabl na myfyrwyr ôl-radd (14%) yn 2020/21. Mae tueddiadau tebyg yn amlwg yn ffigurau'r Deyrnas Unedig, ac mae'r tueddiadau hyn wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf.

| Lefel astudio | Statws anabledd | Bangor | Sector y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Pob Myfyriwr | Anabl | 21% | 16% |
| | Dim anabledd | 79% | 84% |
| Israddedig | Anabl | 23% | 18% |
| | Dim anabledd | 77% | 82% |
| Ôl-radd | Anabl | 14% | 11% |
| | Dim anabledd | 86% | 89% |

# Myfyrwyr yn ôl anabledd a dull astudio

Mae ffigurau diweddaraf 2021/22 ar gyfer Bangor yn dangos bod cyfran uwch o fyfyrwyr llawn-amser (23%) wedi eu cofnodi ag anabledd, o gymharu â 13% o fyfyrwyr rhan-amser. Fodd bynnag, mae ffigurau cenedlaethol yn cyflwyno darlun gwahanol gyda chyfrannau'r myfyrwyr anabl yn debyg i gyfrannau myfyrwyr rhan-amser a llawn-amser.

| Dull astudio | Statws anabledd | Bangor | Sector y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Pob myfyriwr | Anabl | 21% | 16% |
| | Dim anabledd | 79% | 84% |
| Llawn-amser | Anabl | 23% | 16% |
| | Dim anabledd | 77% | 84% |
| Rhan-amser | Anabl | 13% | 17% |
| | Dim anabledd | 87% | 83% |

# Myfyrwyr yn ôl anabledd a rhywedd

O'r 21% o fyfyrwyr a ddatgelodd anabledd ym Mangor yn 2021/22, mae 65% yn fenywod a 59% yn wrywod. Mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd yn gyffredinol ag ystadegau cenedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig. Dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2021/22, ychydig o newid a fu yn y cyfrannau hyn, ym Mangor ac yn sector y Deyrnas Unedig.

| Statws anabledd | Rhywedd | Bangor | Sector y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Anabl | Merched | 65% | 65% |
| | Dynion | 35% | 35% |
| Dim anabledd | Merched | 59% | 56% |
| | Dynion | 41% | 44% |

## Myfyrwyr yn ôl anabledd ac ethnigrwydd

Mae HESA yn canolbwyntio ar ddata ethnigrwydd i fyfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn unig oherwydd nad oes rhaid casglu data ethnigrwydd am fyfyrwyr eraill, ac felly mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar fyfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn unig.

O'r 21% o fyfyrwyr a ddatgelodd anabledd ym Mangor yn 2021/22, nododd 8% eu bod yn y categori Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae hyn yn sylweddol is na ffigur sector y Deyrnas Unedig, sef 20%.

Mae myfyrwyr anabl sy'n nodi eu bod yn y categori Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ym Mangor wedi cynyddu 3% ers 2017/18, lefel debyg o gynnydd a welwyd ar draws sector y Deyrnas Unedig dros yr un cyfnod.

| Statws anabledd | Grŵp ethnig | Bangor | Sector y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Anabl | Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 8% | 20% |
| | Gwyn | 92% | 80% |
| Dim anabledd | Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 9% | 28% |
| | Gwyn | 91% | 72% |

## Pob myfyriwr yn ôl maes pwnc ac anabledd

Mae gan bedair ysgol gyfraddau uwch o fyfyrwyr anabl na chanran y brifysgol yn 2021/22, sef 21%. Mae gan yr Ysgol Gwyddorau Naturiol gyfran arbennig o uchel o fyfyrwyr anabl (31%).

| Ysgol | % Anabl |
|---|---|
| Ysgol Busnes Bangor | 6% |
| Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig | 17% |
| Gwyddorau Addysgol | 19% |
| Gwyddorau Meddygol ac Iechyd | 19% |
| Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas | 20% |
| Gwyddorau Dynol ac Ymddygiadol | 24% |
| Gwyddorau'r Eigion | 27% |
| Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau | 28% |
| Gwyddorau Naturiol | 31% |

Datganodd nifer tebyg o fyfyrwyr SET a myfyrwyr nad ydynt yn SET anabledd, sy'n unol â ffigurau'r Deyrnas Unedig. Mae ffigurau'r Deyrnas Unedig hefyd yn dangos bod cyfraddau'r rhai a gofnodwyd ag anabledd ar eu huchaf ymhlith myfyrwyr oedd yn astudio dylunio a'r celfyddydau creadigol a pherfformio (25%), hanes, athroniaeth ac astudiaethau crefyddol (25%), seicoleg (24%), ac iaith ac astudiaethau ardal (23%). Mewn cyferbyniad, dim ond 7% o'r rhai oedd yn astudio busnes a rheolaeth, 11% yn astudio peirianneg a thechnoleg, a 14% ynn astudio cyfrifiadureg ar draws y Deyrnas Unedig a gofnodwyd ag anabledd. Mae'r patrymau hyn yn ôl gwahanol fathau o bynciau yn cyd-fynd yn gyffredinol ag ystadegau Bangor ar gyfer 2021/22, ac wedi aros yn gymharol gyson dros y blynyddoedd diwethaf.

## Myfyrwyr yn ôl rhywedd a chanlyniad gradd

Graddiodd dros 460 o fyfyrwyr anabl gyda gradd gyntaf yn 2021/22, enillodd 32% radd dosbarth cyntaf, 3% yn is na myfyrwyr nad ydynt yn anabl, ond yn unol â normau'r sector yn y Deyrnas Unedig. Mae cyfran y graddau dosbarth cyntaf i fyfyrwyr anabl wedi cynyddu 7% ers 2017/18, gyda ffigur y Deyrnas Unedig yn cynyddu ar lefel debyg.

Enillodd 42% o fyfyrwyr anabl radd 2:1, 2% yn is na myfyrwyr nad ydynt yn anabl, ond yn sylweddol is na ffigur y Deyrnas Unedig o 48%. Mae graddau 2:1 a enillwyd gan fyfyrwyr anabl wedi gostwng 3% dros bum mlynedd, gyda ffigur y Deyrnas Unedig yn gostwng 1%.

Mae cyfran y graddau 2:2 a ddyfarnwyd i fyfyrwyr anabl (23%) 4% yn uwch na'r gyfran a ddyfarnwyd i fyfyrwyr nad ydynt yn anabl, ond yn sylweddol uwch na ffigur y Deyrnas Unedig, sef 16%. Mae canran y myfyrwyr anabl y dyfarnwyd 2:2 iddynt wedi cynyddu'n sylweddol ers 2020/21 (+6%), ond mae'n parhau'n gymharol gyson â'r ffigur ar gyfer 2017/18 (24%). Mae ffigur cyfatebol y Deyrnas Unedig wedi gostwng 4% yn yr un cyfnod.

| **Statws anabledd** | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dosbarth Cyntaf** | | **2:1** | | **2:2** | | **3ydd** | |
| Anabl | **32%** | 32% | **41%** | 48% | **23%** | 16% | **4%** | 4% |
| Dim anabledd | **35%** | 32% | **43%** | 46% | **19%** | 17% | **4%** | 3% |

Enillodd 74% o fyfyrwyr anabl radd dda (1af/2:1) yn 2021/22, o gymharu â 78% o fyfyrwyr nad ydynt yn anabl. Mae hyn yn fwlch cyrhaeddiad o -4%. Mae'r bwlch wedi cynyddu dros bum mlynedd, o -3% yn 2017/18.

Mae'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer y Deyrnas Unedig yn gadarnhaol, gyda graddau da 1% yn uwch i fyfyrwyr anabl, gwelliant ar yr un pryd dros y cyfnod o bum mlynedd, o -2% yn 2017/18.

| **Statws anabledd** | **% o raddau da** | |
|---|---|---|
| | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** |
| Anabl | 74% | 80% |
| Dim anabledd | 78% | 79% |




# ETHNIGRWYDD


**Mae cofnod myfyrwyr HESA yn darparu data ethnigrwydd am fyfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn unig, oherwydd ei bod yn orfodol i sefydliadau gasglu data ethnigrwydd am y grŵp hwn o fyfyrwyr yn unig. Ond dylid nodi y gall myfyrwyr y Deyrnas Unedig ddewis peidio â datgelu'r wybodaeth hon. Mae'r dadansoddiad hwn felly wedi ei gyfyngu i fyfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn unig.**

Mae dadansoddiad HESA yn cyfuno grwpiau mewn un categori Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ond mae'n cydnabod cyfyngiadau'r acronym BAME, yn arbennig felly:

-y dybiaeth bod staff o leiafrifoedd ethnig yn grŵp homogenaidd
-swyddogaeth yr acronym fel label i ddisgrifio grwpiau o bobl ethnig lleiafrifol, yn hytrach na'r hunaniaeth y byddai'r unigolion yn dewis uniaethu â hi
-y canfyddiad bod y term yn cyfeirio at bobl nad ydynt yn wyn yn unig, a'i fod yn diystyru grwpiau ethnig lleiafrifol gwyn.

Mae'r brifysgol yn cydnabod bod defnyddio labeli BAME yn broblemus, ond mae'n parhau i ddefnyddio'r categori hwn ar hyn o bryd yn unol ag arferion adrodd ehangach ar draws y sector AU; mae gwaith yn mynd rhagddo i gytuno ar labeli amgen ar gyfer adroddiadau'r brifysgol, a chaiff data ei ddadgyfuno lle bo modd.



# Myfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn ôl Ethnigrwydd

Nododd 8% o'r holl fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig eu bod yn y categori Du, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig. Mae hyn wedi cynyddu 1% ers 2017/18.

Dengys ffigurau'r Deyrnas Unedig y datganodd 98% o'r holl fyfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig wybodaeth am ethnigrwydd yn 2021/22. O blith y rhai y mae gwybodaeth ynglŷn â'u hethnigrwydd yn hysbys, nododd 27% eu bod yn y categori Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae hyn 3% yn uwch na 2017/18. Roedd cynrychiolaeth Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn amrywio'n ddirfawr o'r naill wlad i'r llall, 31% yn Lloegr, 10% yng Nghymru, 10% yn yr Alban a 4% yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn i raddau helaeth yn dilyn y patrwm ym Mhrifysgol Bangor, lle mae cynrychiolaeth Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar ei uchaf yn Lloegr (yn parhau i fod tua 12% dros y pum mlynedd diwethaf), ac yn is yng Nghymru (yn parhau i fod tua 4% dros y pum mlynedd diwethaf).

| Grŵp Ethnig | Bangor | Y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|
| Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 8% | 27% |

O'u dadgyfuno yn grwpiau ethnig manylach, mae gwahaniaethau sylweddol yn amlwg rhwng y cyfrannau ym Mangor a'r ffigurau cenedlaethol, ac mae hyn yn arbennig o amlwg i fyfyrwyr sy'n nodi eu bod yn Asiaidd, sef 3% ym Mangor, o gymharu â 12% ar draws y Deyrnas Unedig. Mae cyfran y myfyrwyr gwyn ym Mangor (92%) yn sylweddol uwch na'r ffigur yn y Deyrnas Unedig, sef 73%.

Mae'r niferoedd dadgyfunedig ym Mangor yn isel, ac felly bydd y dadansoddiad croestoriadol a ganlyn yn canolbwyntio ar y grŵp Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

| Grŵp ethnig (manwl) | Bangor | Y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|
| Asiaidd | 3% | 12% |
| Du | 2% | 8% |
| Cymysg / Arall | 3% | 7% |
| Gwyn | 92% | 73% |

# Pob myfyriwr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn ôl ethnigrwydd a lefel astudio

Mae cynrychiolaeth myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ymhlith yr holl israddedigion yn 8% ac yn 9% ymhlith myfyrwyr ôl-radd. Mae'r cyfrannau'n sylweddol uwch yn genedlaethol, gyda 28% o'r holl israddedigion yn nodi eu bod yn y categori Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, o gymharu â 23% o'r holl ôl-raddedigion.

Mae cynrychiolaeth Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ymhlith myfyrwyr ôl-radd ym Mangor wedi cynyddu 2% ers 2017/18, i raddau helaeth yn unol â chynnydd ar draws sector y Deyrnas Unedig. Mae cynnydd llai ymhlith myfyrwyr israddedig, gyda chynnydd o 1% dros yr un cyfnod; nid yw hyn yn cyd-fynd â thueddiadau yn y sector, sydd wedi cynyddu 4%.

| | Grŵp Ethnig | Bangor | Sector y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Pob myfyriwr | Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 8% | 27% |
| | Gwyn | 92% | 73% |
| Israddedig | Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 8% | 28% |
| | Gwyn | 92% | 72% |
| Ôl-radd | Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 9% | 23% |
| | Gwyn | 91% | 77% |

# Pob myfyriwr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn ôl ethnigrwydd a dull astudio

Ym Mhrifysgol Bangor, mae cyfran y myfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig sy'n ystyried eu hunain yn Ddu, Asiaidd neu o Leiafrifoedd Ethnig ar gyrsiau rhan-amser ychydig yn is na'r gyfran ar gyrsiau llawn-amser. Mae ffigurau'r Deyrnas Unedig yn dangos gwahaniaethau mwy amlwg, gyda chryn dipyn yn llai o fyfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyrsiau rhan-amser o gymharu â chyrsiau llawn-amser. Nid yw tueddiadau tymor hwy yn dangos llawer o newid yn y patrymau hyn ers 2017/18, ym Mangor nac yn sector y Deyrnas Unedig.

| | Grŵp Ethnig | Bangor | Sector y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Pob myfyriwr | Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 8% | 27% |
| | Gwyn | 92% | 73% |
| Llawn-amser | Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 9% | 29% |
| | Gwyn | 91% | 71% |
| Rhan-amser | Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 8% | 18% |
| | Gwyn | 92% | 82% |

# Pob myfyriwr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn ôl ethnigrwydd a rhywedd

Mae ffigurau diweddar ar gyfer Prifysgol Bangor yn 2021/22 yn dangos bod 60% o fyfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ferched, a 40% yn ddynion; mae'r dosbarthiad rhywedd hwn yn gyfartal â'r hyn a welir ar draws y brifysgol gyfan, ac yn cyd-fynd yn weddol â'r ffigurau ar gyfer sector y Deyrnas Unedig. Mae tueddiadau wedi aros yn gymharol gyson dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at 2021/22.

| Grŵp Ethnig | Rhywedd | Bangor | Sector y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | Merched | 60% | 57% |
| | Dynion | 40% | 43% |
| Gwyn | Merched | 65% | 60% |
| | Dynion | 35% | 40% |

# Pob myfyriwr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn ôl ethnigrwydd ac anabledd

Yn 2021/22, datgelodd 23% o fyfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ym Mangor anabledd, ac mae hyn wedi cynyddu 7% ers 2017/18. Mae'r ffigur cyfatebol ar gyfer y Deyrnas Unedig yn sylweddol is, ond mae wedi cynyddu 3% dros yr un cyfnod adrodd.

| Grŵp Ethnig | Statws anabledd | Bangor | Sector y Deyrnas Unedig |
|---|---|---|---|
| Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | Anabl | 23% | 14% |
| | Dim anabledd | 77% | 86% |
| Gwyn | Anabl | 26% | 21% |
| | Dim anabledd | 74% | 79% |

# Pob myfyriwr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn ôl ethnigrwydd a maes pwnc

Mae gan fwyafrif yr ysgolion ym Mangor ganran o fyfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig sy'n nodi eu bod yn y categori Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, sydd o fewn 5 pwynt canran o ffigur y brifysgol o 8%. Mae ffigur yr Ysgol Busnes fodd bynnag yn sylweddol uwch (+10%) na ffigur y brifysgol. Mae'r patrwm hwn hefyd i'w weld ar y lefel genedlaethol yn y maes pwnc hwn, sef cyfran sylweddol uwch o fyfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (34%) o gymharu â ffigur cyffredinol y Deyrnas Unedig (27%).

| **Ysgol** | % Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig |
|---|---|
| Gwyddorau Addysgol | 4% |
| Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas | 5% |
| Gwyddorau Naturiol | 6% |
| Gwyddorau'r Eigion | 7% |
| Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau | 9% |
| Gwyddorau Dynol ac Ymddygiadol | 10% |
| Gwyddorau Meddygol ac Iechyd | 11% |
| Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig | 12% |
| Ysgol Busnes Bangor | 18% |

# Pob myfyriwr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn ôl ethnigrwydd a chanlyniad gradd

Graddiodd ychydig dros 100 o fyfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig a nododd eu bod yn y categori Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gyda gradd gyntaf yn 2021/22. Graddiodd 32% gyda gradd dosbarth cyntaf, 3% yn is na myfyrwyr gwyn. Mae hyn i lawr 4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond yn gynnydd o 8% o'i gymharu â 2017/18. Mae nifer y graddau dosbarth cyntaf gan fyfyrwyr gwyn hefyd i lawr o'i gymharu â 2020/21 (-10%), ond gyda chynnydd o 5% dros bum mlynedd.

Roedd 38% o'r graddau a enillwyd gan fyfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn raddau 2:1 yn 2021/22. Mae hyn ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol (-2%) ond i fyny 5% dros bum mlynedd. Cafwyd cyfran uwch o raddau 2:1 gan fyfyrwyr gwyn yn 2021/22, hefyd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol (-3%) ond gyda chynnydd cyffredinol o 3% dros y cyfnod o bum mlynedd.

Cafwyd cyfran sylweddol uwch o raddau 2:2 gan fyfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn 2021/22, o gymharu â myfyrwyr gwyn, ond mae wedi gostwng 5% ers 2017/18. Mae nifer y graddau 2:2 a enillwyd gan fyfyrwyr gwyn wedi aros yn gymharol sefydlog dros y cyfnod o bum mlynedd.

| **Grŵp Ethnig** | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Dosbarth Cyntaf** | | **2:1** | | **2:2** | | **3ydd** | |
| Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | **32%** | 25% | **38%** | 47% | **29%** | 22% | **1%** | 5% |
| Gwyn | **35%** | 36% | **42%** | 47% | **20%** | 14% | **3%** | 3% |

Cafodd 70% o fyfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig raddau da ($1^{af}$/2:1), sy'n sylweddol is na'r hyn a gyflawnwyd gan fyfyrwyr gwyn. Fodd bynnag, mae cyfran y graddau da a enillwyd gan fyfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi cynyddu'n sylweddol dros bum mlynedd (+13%), gan ragori ar y cynnydd a welwyd ar draws sector y Deyrnas Unedig yn yr un cyfnod (+5%).

Mae hefyd yn gadarnhaol nodi bod y bwlch cyrhaeddiad ym Mangor wedi lleihau'n sylweddol dros bum mlynedd, o -18% (2017/18) i -7% (2021/22), ac yn llai na'r bwlch cyrhaeddiad yn y Deyrnas Unedig yn 2021/22. (-10%). Fodd bynnag, mae gwahaniaeth sylweddol yn parhau yng nghanlyniadau myfyrwyr Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig o gymharu â myfyrwyr gwyn ym Mangor, a ledled y Deyrnas Unedig.

| **Grŵp Ethnig** | **% o raddau da** | |
|---|---|---|
| | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** |
| Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 70% | 73% |
| Gwyn | 77% | 83% |



# OEDRAN


Dychwelir data ar oedran myfyrwyr i HESA wrth iddynt ddechrau eu rhaglen radd.  Mae'r data hwn yn ein galluogi i roi myfyrwyr yn y categori ifanc neu'r categori hŷn, yn unol â diffiniadau HESA.  Sylwer fodd bynnag nad yw data sector ar gael ar gyfer y grwpiau oedran hyn, ac felly nid oes meincnod ar gael.  Mae'r diffiniadau hyn yn amrywio yn dibynnu a yw myfyrwyr ar gyrsiau israddedig neu ôl-radd, ac maent wedi eu hamlinellu isod:


Israddedigion:

- Ifanc: myfyrwyr o dan 21 oed ar ddechrau'r cwrs gradd
- Hŷn: myfyrwyr 21 oed neu hŷn ar ddechrau'r cwrs gradd

Ôl-raddedigion

- Ifanc: myfyrwyr o dan 25 oed ar ddechrau'r cwrs gradd
- Hŷn: myfyrwyr 25 oed neu hŷn ar ddechrau'r cwrs gradd



## Pob myfyriwr yn ôl rhywedd a lefel astudio

Roedd y dosbarthiad oedran ym Mangor yn amrywio rhwng pob lefel astudio yn 2021/22, gyda chyfrannau'r myfyrwyr hŷn yn cynyddu ymhlith myfyrwyr ôl-radd. Mae'r lefel gyffredinol hon o gynnydd i'w ddisgwyl, wrth i fyfyrwyr gymryd amser i symud ymlaen trwy wahanol lefelau o'r system addysg uwch. Yn gyffredinol, mae gan Fangor gyfran uwch o fyfyrwyr ifanc o gymharu â myfyrwyr hŷn, oherwydd bod mwy o ddarpariaeth israddedig ar gael ar draws y brifysgol. Mae'r patrymau cyffredinol hyn wedi aros yn gymharol sefydlog dros y cyfnod o bum mlynedd.

| Lefel Astudio | Oedran | Bangor |
|---|---|---|
| Pob myfyriwr | Hŷn | 46% |
| | Ifanc | 54% |
| Israddedigion | Hŷn | 34% |
| | Ifanc | 66% |
| Ôl-raddedigion hyfforddedig | Hŷn | 69% |
| | Ifanc | 31% |
| Ôl-raddedigion ymchwil | Hŷn | 72% |
| | Ifanc | 28% |

## Pob myfyriwr yn ôl rhywedd a dull astudio

Mae anghysondebau mwy amlwg o'u dadansoddi yn ôl dull astudio yn 2021/22. Ar gyrsiau llawn-amser, mae cyfran y myfyrwyr hŷn yn sylweddol is. Ar gyrsiau rhan-amser, mae mwyafrif y myfyrwyr yn y categori myfyrwyr hŷn, sy'n duedd ddisgwyliedig gan fod astudio'n rhan-amser yn tueddu i apelio at fyfyrwyr hŷn sy'n manteisio ar gyfleoedd i ddychwelyd i addysg yn ddiweddarach yn eu bywydau. Ychydig o newid sydd wedi bod yn y patrymau hyn dros y blynyddoedd diwethaf.

| Dull astudio | Oedran | Bangor |
|---|---|---|
| Pob myfyriwr | Hŷn | 46% |
| | Ifanc | 54% |
| Llawn-amser | Hŷn | 37% |
| | Ifanc | 63% |
| Rhan-amser | Hŷn | 95% |
| | Ifanc | 5% |

## Pob myfyriwr yn ôl oedran a rhywedd

Allan o gyfanswm poblogaeth myfyrwyr hŷn Bangor yn 2021/22, roedd 62% yn ferched. O gymharu, roedd 53% o fyfyrwyr ifanc yn ferched.

Ar lefel israddedig, roedd 63% o fyfyrwyr hŷn yn ferched, o gymharu â 60% o fyfyrwyr ifanc. Ar lefel ôl-radd, roedd lefelau tebyg o fyfyrwyr hŷn yn ferched (62%), gyda chyfran is o fyfyrwyr ifanc (53%).

| Oedran | Rhywedd | Bangor |
|---|---|---|
| Hŷn | Merched | 62% |
| | Dynion | 38% |
| Ifanc | Merched | 53% |
| | Dynion | 47% |

## Pob myfyriwr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn ôl ethnigrwydd a rhywedd

Mae HESA yn canolbwyntio ar ddata ethnigrwydd i fyfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn unig oherwydd nad oes rhaid casglu data ethnigrwydd am fyfyrwyr eraill, ac felly mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar fyfyrwyr sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn unig.

Mae 8% o fyfyrwyr benywaidd sy'n preswylio yn y Deyrnas Unedig yn unig yn nodi eu bod yn y categori Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, o gymharu â 10% o fyfyrwyr gwrywaidd. Mae'r ffigurau'n debyg iawn ar lefelau israddedig ac ôl-radd.

| Oedran | Grŵp Ethnig | Bangor |
|---|---|---|
| Hŷn | Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 8% |
| | Gwyn | 92% |
| Ifanc | Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig | 9% |
| | [illegible] | [illegible] |

## Pob myfyriwr yn ôl oedran a maes pwnc

Mae tueddiadau amrywiol yn amlwg yn 2021/22 o'u dadansoddi fesul ysgol. Pynciau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth sy'n tueddu i fod â'r cyfrannau isaf o fyfyrwyr hŷn yn gyffredinol. Y Gwyddorau Meddygol ac Iechyd sydd â'r ffigur uchaf, sef 68%, ac mae hyn yn cael ei yrru gan y cyrsiau nyrsio a gofal iechyd rhan-amser sydd ar gael, a nifer y myfyrwyr ar y cyrsiau o'r ardal leol. Mae'r tueddiadau amrywiol rhwng gwahanol ysgolion wedi aros yn gymharol sefydlog dros gyfnod o bum mlynedd.

| Ysgol | % Hŷn |
|---|---|
| Gwyddorau'r Eigion | 18% |
| Gwyddorau Naturiol | 28% |
| Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig | 32% |
| Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau | 32% |
| Hanes, y Gyfraith a Gwyddorau Cymdeithas | 43% |
| Gwyddorau Dynol ac Ymddygiadol | 49% |
| Addysg | 50% |
| Ysgol Busnes Bangor | 52% |
| Gwyddorau Meddygol ac Iechyd | 68% |

## Pob myfyriwr yn ôl rhywedd a chanlyniad gradd

Ceir gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn y canlyniadau gradd hefyd. Llwyddodd cyfran sylweddol uwch o fyfyrwyr benywaidd ym Mangor i ennill gradd dosbarth cyntaf (37%) yn 2021/22, o gymharu â myfyrwyr gwrywaidd (31%), a hefyd o gymharu â ffigurau cenedlaethol (25%). Fodd bynnag, mae nifer graddau dosbarth cyntaf merched wedi gostwng ers 2020/21 (-6%), ond gyda chynnydd cyffredinol o 4% dros gyfnod o bum mlynedd, yn unol â ffigurau'r Deyrnas Unedig.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn llai amlwg wrth ystyried graddau 2:1, gyda 41% o fyfyrwyr benywaidd ym Mangor yn ennill gradd 2:1, ychydig yn is na'r ffigur gwrywaidd, sef 43%. Fodd bynnag, mae ffigur y Deyrnas Unedig yn sylweddol uwch, gyda chyfrannau cyfartal rhwng myfyrwyr benywaidd a gwrywaidd.


Graddiodd 18% o ferched ym Mangor gyda gradd 2:2 yn 2021/22, sy'n is na'r ffigur cyfatebol gwrywaidd, a hefyd yn is na ffigur y Deyrnas Unedig.

Sylwer y dychwelir oedran y myfyrwyr wrth eu derbyn i'r cwrs i HESA, ac mae modd canfod categorïau 'hŷn' ac 'ifanc' o ddata mewnol Bangor, nid yw'r wybodaeth honno ar gael ar lefel y sector, ar hyn o bryd ac felly nid yw'n bosib meincnodi.

| **Oedran** | **Dosbarth Cyntaf** | **2:1** | **2:2** | **3ydd** |
|---|---|---|---|---|
| Hŷn | **33%** | **40%** | **23%** | **5%** |
| Ifanc | **35%** | **43%** | **19%** | **3%** |

O ran 'graddau da', graddiodd 78% o fyfyrwyr benywaidd gyda gradd dosbarth 1ad neu 2:1, o gymharu â 74% o fyfyrwyr gwrywaidd. Mae hyn yn cynrychioli bwlch cyrhaeddiad cadarnhaol o 4%, ond mae hyn wedi lleihau 3% yn gyffredinol dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r duedd hon yn amlwg ar draws sector y Deyrnas Unedig, gyda bwlch cadarnhaol o 5% ar gyfer 2021/22.

| **Oedran** | **% o raddau da** | |
|---|---|---|
| | **Bangor** | **Y Deyrnas Unedig** |
| Hŷn | 72% | 81% |
| Ifanc | 78% | 76% |



# CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Gwasanaethau Myfyrwyr, Neuadd
Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor
inclusive@bangor.ac.uk

Duet Postscriptum stocksy.com/2415035